# Mesur Addysg (Cymru) 2011

**2011 mccc 7**

## RHAN 2

LLYWODRAETHU YSGOLION

## PENNOD 1

FFEDEREIDDIO YSGOLION A GYNHELIR

### 10 Ffedereiddio ysgolion gan gyrff llywodraethu

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i gyrff llywodraethu—

(a) dwy neu ragor o ysgolion a gynhelir,

(b) ffederasiwn sy'n bodoli eisoes ac un neu ragor o ysgolion a gynhelir, neu

(c) dau neu ragor o ffederasiynau sy'n bodoli eisoes.

(2) Caiff cyrff llywodraethu ddarparu i'w priod ysgolion gael eu ffedereiddio.

(3) Mae'r pŵer hwn yn ddarostyngedig i'r canlynol—

(a) cydymffurfio ag unrhyw amodau rhagnodedig, a

(b) arfer y pŵer yn unol ag unrhyw weithdrefn ragnodedig.

**Statws**
Nid yw'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn cael effaith mwyach.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Addysg (Cymru) 2011, Adran 10.